

TREFNIADAU SEFYDLU YN YSTOD COVID-19 – Cwestiynau Cyffredin

C: A allaf gwblhau fy nghyfnod sefydlu eleni?

A: Rydym am allu eich cefnogi chi i gwblhau eich cyfnod sefydlu os oeddech i fod i gwblhau eich cyfnod sefydlu yr haf hwn. Rydym am rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i chi allu gwneud hyn. Mewn rhai amgylchiadau bydd eich ysgol yn rhoi cyfarwyddyd i chi ac os ydych yn dal i fod yn brin o sesiynau, gallwch ymgymryd â rhywfaint o ddysgu proffesiynol. Bydd hyn yn ddibynol ar eich amgylchiadau personol chi. Os na fydd yn bosibl i chi ymrwmo i hyn yn ystod tymhorau'r haf, gallwch ailgydio yn eich cyfnod sefydlu pan fydd ysgolion yn ailagor.

Mae'r hyblygrwydd yn cynnwys rhywfaint o ddysgu proffesiynol, dysgu o bell a rhywfaint o absenoldeb.

C: A all athrawon newydd gymhwyso gofnodi sesiynau yn ystod gwyliau'r Pasg a'r Sulgwyn tuag at eu nifer o sesiynau, neu ai dim ond dysgu proffesiynol, addysgu neu baratoi adnoddau yn ystod y tymor fydd yn cyfrif?

A: Rydym yn cydnabod bod trefniadau gweithio athrawon wedi newid yn ystod y cyfnod hwn er mwyn darparu ar gyfer ailbwrpasu ysgolion. I leihau effaith y trefniadau dros dro hyn ar athrawon newydd gymhwyso sy'n cwblhau eu cyfnod sefydlu, gall athrawon newydd gymhwyso ddewis gofnodi unrhyw ddysgu proffesiynol neu baratoi adnoddau a wneir ganddynt yn ystod gwyliau'r Pasg/Sulgwyn, yn ogystal ag unhryw sesiynau a ymgwymerir mewn ysgolion ardal.

C: Beth am wyliau'r haf?

A: Caiff hyn ei adolygu ddiwedd y flwyddyn academiaidd.

C: A fydd athrawon newydd gymhwyso yn gallu cofnodi mwy na 60 sesiwn yn ystod y tymor? Mae gennym rhywfaint o athrawon newydd gymhwyso sy'n gweithio'n rhan amser neu'n gweithio drwy gyflenwi tymor byr a fydd hwyrach yn dymuno defnyddio'r cyfle hwn i gofnodi'r nifer fwyaf o sesiynau, sef 120 sesiwn, yn ystod y tymor er mwyn bodloni'r 380 o sesiynau sy'n ofynnol iddynt erbyn diwedd tymor yr haf.

A: O dan yr amgylchiadau presennol, nid ydym yn disgwyl y bydd athrawon newydd gymhwyso yn gallu cwblhau 120 sesiwn o addysgu, paratoi adnoddau neu ddysgu proffesiynol yn ystod tymor yr haf. Felly, 60 sesiwn yw'r nifer fwyaf o sesiynau y gall athrawon newydd gymhwyso eu cofnodi. Bydd y sesiynau a gofnodir yn cael eu gwirio gan y Gwiriwr Allanol.

C: A fydd athrawon newydd gymhwyso sy'n gweithio'n rhan amser neu'n gweithio drwy gyflenwi tymor byr, sydd wedi cwblhau 260 sesiwn erbyn diwedd tymor y gwanwyn, yn gallu cofnodi 60 sesiwn o absenoldeb a 60 sesiwn o addysgu, paratoi adnoddau neu ddysgu proffesiynol er mwyn bodloni'r 380 sesiwn gofynnol?

A: Byddant.

C: Beth am athrawon newydd gymhwyso sy'n gweithio'n rhan amser neu'n gweithio drwy gyflenwi tymor byr nad oeddynt i fod i gwblhau eu cyfnod sefydlu eleni?

A: Gallant gofnodi unrhyw sesiynau y maent yn ymgymryd yn ogystal â 60 sesiwn o absenoldeb.

C: A fydd rhaid i athrawon newydd gymhwyso oedd yn hwyr yn cofrestru yn y categori athro ysgol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg barhau â'u cyfnod sefydlu yn y flwyddyn academiaidd newydd?

A: Dim ond os ydynt wedi cofnodi llai na 380 sesiwn.

C: Bydd gennym dargedau o hyd ar gyfer y tymor olaf?

A: Bydd. Bydd Gwirwyr Allanol a Mentoriaid Sefydlu yn adolygu ac yn diwygio targedau tymor yr haf gyda chi.

C: Roedd ANG a oedd ar gynllun gweithredu ysgol, ar gam 1 achos o bryder fod i gael adolygiad. Roedd yr adolygiad fod i gymryd lle ddiwedd tymor y gwanwyn ond o ganlyniad i gau ysgolion, ni ddigwyddodd yr arsylwad. Beth sy'n digwydd yn yr achos hwn?

A: Bydd eich Mentor Sefydlu a'ch Gwiriwr Allanol yn trafod eich cynnydd gyda chi.

C: Mae ANG wedi cyrraedd y 380 sesiwn gofynnol erbyn diwedd y flwyddyn ond nid yw'r Mentor Sefydlu na'r Gwiriwr Allanol wedi ei aryslwi. A fydd yn bosibl gwneud argymhelliad bod yr ANG wedi llwyddo'r cyfnod sefydlu?

A: Os yw un arsylwad wedi'i gwblhau yn foddhaol, bydd hyn yn caniatáu bod argymhelliad yn cael ei wneud. Os nad oes arsylwad wedi'i gwblhau, bydd y cyfnod sefydlu yn parhau a bydd yr arsylwad yn cymryd lle mor fuan â phosib.

C: Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau/cyflwyno proffiliau?

A: 19 Mehefin 2020 yw dyddiad cau pob consortiwm.

C: Beth yw Dysgu Proffesiynol, a yw gweithgareddau fel diweddarau cynlluniau dysgu, creu adnoddau a rhith-addysgu yn cael eu hystyried fel dysgu proffesiynol?

A: Gall gynnwys ymchwil, dysgu ar lein a argymhellwyd, fel Microsoft Educator neu Hwb, cynllunio ar gyfer addysgu, datblygu adnoddau a chwblhau eich proffil sefydlu. Bydd y Gwiriwr Allanol yn gwirio pob agwedd ar ddysgu proffesiynol.

C: A all ANG cyflenwi tymor byr gyfrif ddwy wythnos olaf tymor y gwanwyn fel absenoldeb?

A: Gallwch gofnodi pob sesiwn a weithiwyd yn nhymor y gwanwyn.

C: A all pob ANG cyflenwi tymor byr gofnodi 60 sesiwn o absenoldeb a 60 sesiwn o addysgu neu ddysgu proffesiynol, waeth faint o sesiynau maen wedi'u cwblhau?

A: Gall pob athro sy'n ymgymryd â sefydlu gofnodi uchafswm o 60 sesiwn o absenoldeb a 60 sesiwn o addysgu neu ddysgu proffesiynol yn ystod tymor yr haf 2020.

C. Pryd ddylai ANG gofnodi'r absenoldeb?

A: Dylai ANG gofnodi 60 sesiwn o absenoldeb yn ystod tymor yr haf 2020. Dylent fod yn ymwybodol na chaniateir absenoldebau pellach yn ystod eu cyfnod sefydlu a bydd rhaid iddynt ddangos trwy gydol y cyfnod eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

C: Os oes gan ANG llai na 60 sesiwn o'u cyfnod sefydlu i'w cwblhau, a oes rhaid iddynt gofnodi sesiynau o ddysgu proffesiynol, neu a allent gofnodi'r sesiynau sy'n weddill fel absenoldeb, ar yr amod nad yw'r cyfanswm o absenoldeb yn uwch na 60 sesiwn.

A: Gall, os yw'r ANG wedi cofnodi 320 o sesiynau erbyn hanner tymor mis Mai, gall gofnodi'r sesiynau fel absenoldeb. Rhaid tynnu unrhyw absenoldebau eraill i ffwrdd o'r 60 sesiwn.